



# Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Ynni Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod: 1 Ionawr – 31 Mawrth 2014

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Wylfa a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

## TABL CYNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	5
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIOL .....	5
5	NEWYDDION GAN YR ONR.....	6
6	CYSYLLTIADAU.....	6

## 1 AROLYGIADAU

### 1.1 Dyddiadau arolygiadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y chwarter:

20, 21, 22, 23 Ionawr 2014.

17, 18, 19, 20, 21 Chwefror 2014.

17, 18, 19, 20, 21 Mawrth 2014.

Yn ystod y cyfnod fe wnaeth arolygwyr arbenigol neu brosiect yr ONR hefyd gynnal arolwg yn ymwneud â diogelwch confensiynol a thân, diogelwch y safle, cau achlysurol adweithydd 1, ac asesiad o adolygiad diogelwch cyfnodol yr orsaf a gyflwynwyd i'r ONR ym Medi 2013.

Bu arolygydd goruchwyliol yr ONR sy'n gyfrifol am weithredu adweithyddion, yr arolygydd safle a'r arolygydd prosiect a ddynodwyd i Wylfa yn y cyfarfod ail gychwyn adweithydd 1 ar: 20 a 21 Mawrth 2014.

## 2 MATERION ARFEROL

### 2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau yn cynnwys monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle o ran digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r ddadl ddiogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan nifer o'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau a wnaed a'u gweithrediad.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd arolygiadau arferol gorsaf bŵer Wylfa yn cynnwys y meysydd canlynol:

digwyddiadau ar y safle;

hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;

parodrwydd ar gyfer argyfwng;

adolygiad diogelwch cyfnodol;

diffodd cyfnodol;

addasiadau i gyfarpar, offer a dadleuon diogelwch;

archwilio, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;

rheolau a chyfarwyddiadau gweithredu;

rheolaeth ar weithrediadau gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;

rheoli gwastraff ymbelydrol;  
gallu trefniadol; a,  
diogelwch confensiynol.

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle i ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, pan ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymrwymadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd ar unrhyw waith sy'n weddill yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol er budd diogelwch o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

### Cyfarfod Ail Gychwyn Adweithydd 1

Bu arolygydd goruchwyliol yr ONR sy'n gyfrifol am weithredu adweithyddion, yr arolygydd safle a'r arolygydd prosiect a ddynodwyd i Wylfa yn y cyfarfod ail gychwyn adweithydd 1 i drafod dadl yr orsaf dros ddychwelyd adweithydd 1 i weithredu, yn dilyn y cau i lawr achlysurol yn 2014 i'w archwilio, arolygu, cynnal a chadw, a phrofi. Cyn y cyfarfod cynhaliwyd arolwg o'r cyfarpar gydag aelodau o dîm rheoli'r orsaf, arolygydd safle'r cwmni a dau gynrychiolydd diogelwch. Ni wnaeth yr arolwg ganfod unrhyw faterion a allai effeithio ar ddychweliad adweithydd 1 i weithredu, er bod yr orsaf wedi cytuno i ymdrin â meysydd i'w gwella a ddynodwyd. Ystyriodd y cyfarfod ddadl yr orsaf dros ail gychwyn adweithydd 1 a dynodi nifer o gamau y mae'n rhaid iddynt gael eu cwblhau cyn y gall yr ONR roi caniatâd i'r adweithydd gael ei ail ddechrau. Cefnogwyd y ddadl a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr yr Orsaf yn annibynnol gan arolygydd safle'r cwmni a ddynodwyd i safle Wylfa. Cynigiodd y cyfarfod gyfle i werthuso dadl yr orsaf dros ail gychwyn adweithydd 1, a dynodi gwaith sydd angen ei gwblhau cyn iddo ddod yn ôl yn weithredol.

Yn dilyn y cyfarfod, ac ar ôl cadarnhau bod y gwaith wedi cael ei gwblhau neu ei fod ar y gweill, fe roddodd yr ONR ganiatâd i'r trwyddedai ail gychwyn adweithydd 1 yn dilyn y cau i lawr achlysurol. Yn dilyn hynny bu oedi o ran ail gychwyn yr adweithydd oherwydd y gwaith angenrheidiol i ymdrin â materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses o ail gychwyn yr adweithydd, sy'n cael ei reoli dan drefniadau sefydledig y trwyddedai ac yn cael ei fonitro gan yr ONR. Bydd y diweddaraf am y cynnydd yn y gwaith i gael yr adweithydd yn barod i weithredu eto yn cael ei roi mewn adroddiad i Grŵp Rhanddeiliaid Wylfa, fel fydd yn briodol.

## **2.2 Arolygiadau Systemau Diogelwch**

Mae'r ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ychwanegol at arolygiadau cydymffurfio yn seiliedig ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear. Mae'r drwydded safle niwclear yn ei gwneud yn ofynnol i bob safle trwyddedig gael dadl ddiogelwch yng nghyswllt unrhyw weithred a all effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer yr adweithydd Magnox sy'n parhau yn weithredol yng ngorsaf Wylfa, dynodwyd 30 o systemau i roi sail ar gyfer arolygu systemau diogelwch i sicrhau eu bod yn bodloni'r honiadau a wnaed amdanynt gan y ddadl ddiogelwch. Y bwriad yw arolygu yn drefnus dros gylch o bum mlynedd yr holl systemau cysylltiedig a ddynodir ar gyfer y safle. Mae'r ONR yn ystyried mai'r dull hwn fydd yn rhoi'r lefel angenrheidiol o sicrwydd bod gofynion y ddadl ddiogelwch yn cael eu bodloni a bod y safle yn cael ei weithredu yn ddiogel. Yn ystod y chwarter hwn, y systemau diogelwch a arolygwyd oedd: y system drydanol hanfodol, a'r llestr pwysedd concrid. Ar sail yr arolygiadau a gynhaliwyd, ystyriwyd bod y systemau yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw yn unol â gofynion dadl ddiogelwch yr orsaf. Pan ddynodwyd meysydd i'w gwella, fe wnaeth yr orsaf ymrwymo i gymryd camau addas i ymdrin â nhw. Bydd ONR yn monitro cynnydd i gwblhau unrhyw waith y cytunwyd arno.

Gwelir rhagor o fanylion am arolygiadau systemau'r ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa a safleoedd niwclear trwyddedig eraill yn: [www.hse.gov.uk/nuclear/intervention-reports/index.htm](http://www.hse.gov.uk/nuclear/intervention-reports/index.htm) .

## 2.3 Gwaith arall

Bu'r arolygydd safle enwebedig mewn cyfarfod o grŵp rhanddeiliaid Wylfa. Roedd y cyfarfod yn cynnig cyfle i'r ONR ymateb i gwestiynau am reoleiddio diogelwch gorsaf bŵer Wylfa.

Bu'r arolygydd safle enwebedig mewn cyfarfod o bwyllgor ymgynghorol cynllunio argyfwng yr orsaf. Roedd y cyfarfod yn cynnig cyfle i'r ONR arsylwi ar fusnes y cyfarfod, ac ateb cwestiynau yn ymwneud â rheoleiddio trefniadau argyfwng gorsaf bŵer Wylfa.

## 3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Rhoddir adroddiad ar y materion a'r digwyddiadau sy'n haeddu sylw arbennig isod:

### Gwaith ar Do Adeilad yr Adweithydd.

Hysbysodd yr orsaf yr ONR am ddiwyddiad dan y trefniadau ar gyfer digwyddiadau ar y safle, pan ddaethant yn ymwybodol bod yr amodau yn ystod y cyfnod pan oedd yr orsaf wedi diffodd ar do adeilad yr adweithydd yn gofyn am reoliadau rheoli ymbelydredd i gyfyngu ar y potensial y byddai gweithwyr yn y fan honno yn agored i ymbelydredd. Ar ôl sylweddoli beth oedd yr amgylchiadau, fe wnaeth yr orsaf atal y gwaith ar y to nes byddai'r camau diogelwch addas yn eu lle i sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â'r trefniadau sefydledig i ddiogelu gweithwyr dan IRR99. Mae'r orsaf wedi ymchwilio i'r digwyddiad a'u hasesiad o ganlyniad y digwyddiad yw y gall yr unigolion a ddiodefodd fod wedi cael dos nad oedd wedi ei reoli yn unol â'r rheolau diogelwch radiolegol lleol, er bod y dos yn gymharol isel yn ôl amcangyfrif yr orsaf. Er bod ymateb y trwyddedai i'r digwyddiad yn addas dan amodau'r drwydded, roedd y digwyddiad yn herio'r trefniadau i ddarparu amddiffyniad radiolegol addas i weithwyr. Felly, mae'r ONR yn ystyried amgylchiadau'r achos hwn i ddynodi ymateb rheoleiddiol addas, a bydd y newyddion diweddaraf am y camau a gymerwyd yn cael ei roi mewn adroddiad i Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, fel fydd yn briodol.

## 4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall arolygwyr ONR, arolygwyr arbenigol ac arolygwyr HSE gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (OTau), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Cyhoeddwyd yr OT a Hysbysiadau Trwydded canlynol yn ystod y cyfnod:

**Tabl 1**  
**Offerynnau Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ymwneud â'r cyfnod hwn**

Dyddiad	Math	Rhif Cyfeirio	Disgrifiad
3/2/2014	Cytundeb	LI 559	Cytundeb i newidiadau i Sefydliad Corff Rhiant Magnox Limited.
11/4/2014	Caniatâd	LI 560	Caniatâd i ail gychwyn adweithydd 1 ar ôl ei gau i lawr cyfnodol yn 2014.

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 NEWYDDION GAN YR ONR

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf ynglŷn â'r newidiadau sy'n parhau yn yr ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan (<http://www.onr.org.uk/index.htm>), a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

### Mae'r ONR yn newid

Ar 1 Ebrill 2014, sefydlwyd yr ONR fel Corfforaeth Gyhoeddus dan Ddeddf Ynni 2013. Mae Deddf Ynni 2013 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio safleoedd niwclear Prydain gan yr ONR. Yn ychwanegol, mae gan yr ONR y pwerau i reoleiddio iechyd a diogelwch confensiynol ar safleoedd niwclear Prydain. Mae gan yr ONR ei logo ei hun yn awr, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar bob dogfen a chyfryngau cyfathrebu allanol. Mae'r newidiadau eraill sy'n haeddu sylw yn cynnwys gwefan newydd a chyhoeddi Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014/15; gweler uchod am y dolenni i gael rhagor o wybodaeth.

## 6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear

Redgrave Court

Merton Road

Bootle

Merseyside

L20 7HS

gwefan: <http://www.onr.org.uk>

e-bost: [ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk](mailto:ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, 2014

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i

[blocked::blocked::BLOCKED::http://www.hse.gov.uk/copyrightwww.onr.org.uk/copyright](http://www.hse.gov.uk/copyrightwww.onr.org.uk/copyright) am fanylion.

Cyhoeddwyd 04/14

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.*